CYFARFOD GRŴP LLYWIO AELODAU PROSIECT GWYRDD DYDD LLUN 1 MEHEFIN 2009 AM 10.30AM. Tŷ Penallta, Tredomen	
Yn Bresennol:	**Llythrennau Cyntaf**
Aelodau Etholedig: Y Cynghorydd Colin Mann, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cadeirydd) Y Cynghorydd Miss Lyn Ackerman, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Y Cynghorydd Margaret Jones, Cyngor Sir Caerdydd Y Cynghorydd David Fouweather, Cyngor Dinas Casnewydd Y Cynghorydd Peter Fox, Cyngor Sir Fynwy Y Cynghorydd Eric Saxon, Cyngor Sir Fynwy Y Cynghorydd Geoff Cox, Cyngor Bro Morgannwg	CM LA MJ DF PF ES GC
Swyddogion: Stephen Davison, Cyngor Dinas Casnewydd (Prif Swyddog Technegol) Dave Harris, Cyngor Sir Fynwy Clifford Parish, Cyngor Bro Morgannwg Tara King, Rheolwr Prosiectau	 SD DH CP TK
Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Mark Stephens, Cyngor Sir Caerdydd Y Cynghorydd David Atwell, Cyngor Dinas Casnewydd Y Cynghorydd Gordon Kemp, Cyngor Bro Morgannwg Mark Williams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Steven Phillips, Cyngor Sir Caerdydd	

Rhif	Eitem	Cam Gweithredu
1.	**Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**	
17/09	Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2009.	Nodwyd
2.	**Materion yn Codi**	
18/09	**Cofnod 13/09** Nodwyd, fel y gwnaethpwyd cais, fod y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y prosiect wedi'i roi i Brif Weithredwyr ac Aelodau cyn cyfarfod Bwrdd Cysylltu De-ddwyrain Cymru ar 9 Ebrill 2009.	Nodwyd
3.	**Y Diweddaraf am Adroddiad Cyffredin - TK**	
20/09	Cadarnhaodd TK fod Cyngor Dinas Casnewydd wedi ystyried yr ail adroddiad cyffredin ar 26 Mai (fel y cytunwyd yn flaenorol gyda'r awdurdod perthnasol yn y lle cyntaf) ac y byddai'n cael ei ystyried gan Gyngor Sir Fynwy a Chyngor Bro Morgannwg ar 3 Mehefin. Byddai Cyngor Sir Caerdydd yn ystyried yr adroddiad tua diwedd mis a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ym mis Gorffennaf. Er y byddai cynnwys cyffredinol yr adroddiadau yn debyg, byddai'r wybodaeth ariannol a gynhwysir ynddynt yn berthnasol i bob awdurdod unigol. Ailadroddwyd unwaith eto fod y caffael yn niwtral o ran technoleg ac na fydd technoleg cyfeirio OBC o reidrwydd yn rhagnodi'r canlyniad terfynol.	Nodwyd
4.	**Sesiwn Holi ac Ateb yr Ail Adroddiad Cyffredin - TK**	
21/09	Er bod cynnwys yr adroddiad wedi'i drafod yn fanwl yn y cyfarfod blaenorol, atgoffodd TK Aelodau o'r amserlen amlinellol ddangosol, egwyddorion allweddol y fanyleb amlinellol, yr amlen fforddiadwyedd a'r broses llywodraethu a chaffael a fanylir ynddo. Ymatebodd TK i nifer o gwestiynau a godwyd yn ystod y cyflwyniad a'r cwrs o ddilyn trafodaeth gan gyfeirio'n benodol at amserlen y broses ymgynghori, y broses gaffael, trefniadau llywodraethu ac, o fewn yr amserlenni adrodd, sut y gellid cyflawni hyn. Byddai'r pwynt diwethaf yn cael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.	Nodwyd

	Cyfeiriwyd hefyd at ddarparu gwybodaeth am gynnydd y prosiect a chadarnhawyd y bwriedir diweddaru'r wefan yn rheolaidd.	Cytunwyd Nodwyd
5.	**Camau Nesaf – TK/SP**	
21/09	**Rhaglen Werthuso** Byddai'r gwerthusiad yn ôl erbyn diwedd mis Gorffennaf a gosodir hysbysiad OJEU ym mis Hydref. **Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor -** Byddai manylion cylch gorchwyl y cydbwyllgor yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf. **Ymweliadau â Safleoedd** Mae trefniadau ar waith ar gyfer cynnal ymweliadau â safleoedd yn ystod mis Awst - caiff y dyddiadau eu hysbysu maes o law.	Nodwyd Cam Gweithredu TK Cam Gweithredu VT
6.	**Unrhyw Fater Arall**	
22/09	Nododd Clifford Parish fel Cadeirydd Canolfan CIWM Cymru y byddai'n gweithredu fel Cadeirydd cynhadledd yn y Seminar Ynni o Wastraff a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 9 Gorffennaf 2009 – byddai manylion y digwyddiad yn cael eu dosbarthu.	Nodwyd
8.	**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**	
23/09	Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Mercher 22 Gorffennaf am 4.30pm yn Ystafell Bwyllgor 2, Neuadd y Sir, Caerdydd	Nodwyd